


Cip ar Brydau Cyflym

Mae Prydau Cyflym yn cyfrif am 27.3% o wariant Bwyd i Fynd Cymru, ac yn werth £453m. Gan gynnwys brechdanau, pastai sawrus, salad, cawl a sushi, mae'n gategori eang a deinamig. Tra bo'r categori'n tyfu, gyda 91% o'r boblogaeth yn prynu ynddo, mae pryniannau blynyddol yng Nghymru'n is na chyfrtaled Prydain (£184 v £223). Prisiau uned is ac amllder prynu sydd i gyfrif am hyn. Gallai newid i ddewis cynnyrch premiwm ac apelio at siopwyr iau a benywaidd yrru twf. Bydd cwrdd ag anghenion gwahanol amser o'r dydd, yn enwedig yn y bore, yn bwysig ar gyfer tyfu'r farchnad prydau cyflym.

Mae brechdanau'n dominyddu prydau cyflym, gan gyfrif am 61% o'r categori ac yn werth £275.6m. Mae cyfran o'r fasnach gan gynnwyrch arall yng Nghymru yn weddol debyg i weddill Prydain, ac eithrio salad, sydd ond yn cyfrif am 4.7% o Brydau Cyflym yng Nghymru o'i gymharu â 7.9% yng ngweddill Prydain.



Mae gwerthiant prydau cyflym wedi tyfu 3.7% y flwyddyn yng ngweddill Prydain, o'i gymharu â 2.6% yng Nghymru. Mae cynnydd sylweddol yn y gwariant ar bob pecyn yn gyrru'r cynnydd yng ngweddill Prydain. Mae gwariant ar bob pecyn wedi gostwng yng Nghymru.

Mae Cymru wedi gweld gwariant ar frechdanau a phastai sawrus yn cynyddu, ond gwariant ar salad yn gostwng. Yng ngweddill Prydain, gwelwyd twf ym mhob categori Prydau cyflym, ond twf cryf i frechdanau a salad yn arbennig.

Ym Mhrydain, mae twf brechdanau a phastai sawrus wedi cyd-fynd â thwf Prydau Cyflym (h.y. heb ei yrru gan newid categori, ond gan siopwyr yn gwario mwy).

Mae twf salad yn cael ei yrru gan dwf o fewn y categori, ond hefyd gan newid o brynu brechdanau. Gyda salad 23% yn ddrytach na brechdanau, mae'r newid yn golygu premiwm pris sylweddol yn y farchnad prydau cyflym.

Mae demograffeg siopwr Prydau Cyflym Cymru ar y cyfan yn hŷn a gwrywaidd. Mae cynnyrch fel brechdanau a phastai sawrus yn apelio'n gryf. Mae demograffeg Prydain yn dangos fod siopwyr am salad a sushi yn iau ar y cyfan, ac yn fwy benywaidd. Byddai ehangu'r farchnad Prydau Cyflym i gynnwys salad a sushi yn help i apelio at y siopwr iau a benywaidd.

Anaml iawn y bydd siopwyr am salad ond yn prynu salad, gyda 97% hefyd yn prynu brechdanau, 84% yn prynu pastai sawrus, a 64% yn prynu prydau cyflym eraill. Serch hynny, 39% o siopwyr am frechdanau sy'n prynu salad yng Nghymru o'i gymharu â 45% yng ngweddill Prydain, a 38% o siopwyr am bastai o'i gymharu â 46% o siopwyr Prydain sy'n prynu salad. Byddai cynyddu nifer y defnyddwyr sy'n newid o brynu brechdan neu bastai yn gweld gwerth Prydau Cyflym yn tyfu.

Tra bo siopau Bara a Brechdanau yn cyfrif am bron i draean o werthiant Prydau Cyflym, mae Cymru'n fwy dibynnol ar y Gweithle ac Addysg a Bwytaï Cyflym Cadwyni Bach na gweddill Prydain, ac mae'r sianeli hyn yn gyrru twf Prydau Cyflym.

Gyda thwf mewn pecynnau bwyd i ginio, mae categorïau mwy moethus yn denu gwariant ym masnach y bore, yn arbennig diodydd poeth, brechdanau (yn enwedig cig moch), cacennau a melysion. Mae 27.3% o brydau cyflym bellach yn cael eu prynu cyn hanner dydd, i fyny o 22.6% y llynedd. Gall cynnydd ym masnach y bore yrru twf pellach ym marchnad Prydau Cyflym Cymru.